# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 5

RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O'R CORFF

*Troseddau sy'n gysylltiedig â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff*

### 96 Beth yw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff?

(1) At ddibenion adran 95, rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yw tyllu'r corff mewn rhan bersonol a restrir yn is-adran (2), pan fo'n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol.

(2) Y rhannau personol o'r corff yw—

- (a) yr anws;
- (b) y fron (gan gynnwys y deth a'r areola);
- (c) y ffolen;
- (d) rhych y pen ôl;
- (e) y pidyn (gan gynnwys y blaengroen);
- (f) y perinëwm;
- (g) y mons pubis;
- (h) y ceillgwd;
- (i) y tafod;
- (j) y fwlfa.

(3) Yn yr adran hon, mae i "tyllu'r corff" yr ystyr a roddir yn adran 94.

(4) At ddibenion yr adran hon, mae triniaeth feddygol yn driniaeth a gyflawnir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestredig neu fydwraig gofrestredig, at ddibenion y canlynol, neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

- (a) diagnosio, atal, monitro, trin neu liniaru clefyd, afiechyd, anabledd, neu annormaledd corfforol neu feddyliol arall, neu
- (b) atal cenhedlu.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 96 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 96 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 96 mewn grym ar 1.2.2018 gan O.S. 2018/1, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 96 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2